# YSGOL SARN BACH

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI

# AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2023/2024

**Y CORFF LLYWODRAETHU 2023/2024** Tymor i ben

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Gwenan Grufffydd | A.A.Ll. | Medi, 2024 |
| Cyng. J. B. Hughes | A.A.Ll. | Awst, 2026 |
| Ms Delyth Jones | Athrawon | Awst, 2027 |
| Ms Lona Roberts | Cyfethol | Medi, 2027 |
| Mrs Llinos Owen | Rhieni | Medi, 2024 |
| Mr Robert Morris Jones | Cyngor Cymuned | Awst, 2024 |
| Mr Dylan Llwyd | Rhieni | Hydref 2026 |
| Mr Bryn Jones | Cynrychiolydd Busnes | Mawrth, 2026 |
| Mrs Sian Scott | Rhieni | Medi, 2024 |
| Mrs Nina Williams | Pennaeth | Aelod yn rhinwedd ei Swydd |

Cadeirydd- Mr Robert Morris Jones
Penmorfa, Llanengan

Clerc Mrs. Annwen M Jones
Llain, Sarn Bach, Abersoch

Bydd etholiad nesaf cynrychiolydd Rhiant/Lywodraethwr yn 2024

**1. Adroddiad Y Llywodraethwyr am 2023/2024**

Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae'r pennaeth wedi adrodd am Faterion Cwricwlaidd, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau.
Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.
Mabwysiadwyd ac adolygwyd nifer o bolisiau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copiau o'r polisiau ar gael yn yr ysgol.
Yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion [Cymru] 2013 ni chynhalwyd cyfarfod Blynyddol i Rieni.

**Trefniant y Dosbarthiadau Medi 2023**
Ym Medi 2023 roedd 34 o blant ar y gofrestr

| Athro/ Athrawes | M | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mrs Nina Williams | 1 | 4 | 4 | 3 | | | | | 12 |
| Delyth Jones / Bethan Evans | | | | | 3 | 5 | 1 | 13 | 22 |
| | | | | | | | | | 34 |

**Staff Dysgu**
Cyflogir Ms Delyth Jones fel athrawes C.A.2 am bedwar diwrnod yr wythnos **.** Cyflogir Ms Bethan Evans fel athrawes CA2 am un diwrnod yr wythnos.
Cyflogir Mrs Annwen Jones fel Uwch-gymhorthydd am bedwar diwrnod yr wythnos.

**Cymhorthyddion**.
Cyflogi`r Mrs Catrin Williams fel cymhorthydd Cefnogaeth Dysgu llawn amser.
Cyflogi`r Ms Angelina Else fel cymhorthydd Cefnodaeth Dysgu rhan amser.
Cyflogi`r Ms Ffion Williams fel Cymhorthydd Cefnogaeth Dysgu am ddwy awr yr wythnos.

**Manylion Ariannol:**

Gweler Atodiad am gyllideb derfynnol yr ysgol ar gyfer 2023/2024. Roedd y llywodraethwyr a'r Pennaeth yn cynllunio sut i wario'r arian hwn yn ystod y flwyddyn. Bydd y Pennaeth yn trafod gyda'r llywodraethwyr cyn gosod y gyllideb derfynol- yn unol a gofynion yr Awdurdod Addysg.

Cyllideb cronfa'r ysgol a manylion gwariant yr ysgol 2023 (gweler atodiad)

Cronfa'r Ysgol -Y swm yn y banc ar 31 Rhagfyr, 2023 oedd £14,394.44 Mae croeso i unrhyw un weld mantolen y gronfa sy'n cael ei harchwilio gan Griffith, Williams & Co .

Mae'r gronfa wedi ei harchwilio yn unol a'r gofynion.

**Rhoddion i'r ysgol** –
£100 Cronfa Cadeirydd Cynglor Plwyf
£300 Cronfa Wil Pent
£260 Trysorfa Rhieni

**Newidiadau i'r Llawlyfr Ysgol :**
Mae llawlyfr newydd i rieni wedi ei lunio a'i drafod gyda'r llywodraethwyr .
Cyhoeddir llyfryn Gwybodaeth i Rieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drefnidiaeth a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar gael yn yr ysgol neu ar ein gwefan.

**Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol:**

Amcan yr ysgol yw adnabod y plant ac ADY yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu i'r disgyblion gyrraedd eu llawn botensial . Yr ysgol sy'n gyfrifol am ddarparu gogyfer rhai a'r plant. Pan fo disgybl ar gyfnod arbennig byddwn yn cysylltu ag Asiantaethau tu allan i'r ysgol, e.e. y Seicolegydd Addysgol, Athrawes Ymgynghorol neu'r Gwasanaeth Lles Addysg.
Cyd-gysylltydd ADY ydi Ms Delyth Jones, Mrs Llinos Owen a Ms Sian Scott yw'r llywodraethwyr sydd yn gyfrifol am ADY. Gweler adroddiad cyfarfodydd y llywodraethwyr am fwy o fanylion. Mae'r copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol.

**Disgyblion Anabl:**

Mae'r ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion gyda anableddau corfforol. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill. Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth lawn o'r cwricwlwm i'r plentyn gyda nam corfforol sydd yn yr ysgol. Ceir cyfle i fynd i ymwneud a'r holl weithgareddau awyr agored a chwaraeon sy'n cael ei gynnig i holl blant yr ysgol.

**Ymweliadau / Cysylltiadau**

Gethin Williams o Glwb Pêl droed y Bala – Sesiynnau Pêl droed i`r plant
Rhodri Trefor – Cyfres o weithdai drama i`r plant
Nia Williams – Gwasanaethau Ysgol Gyfan
Nyrs Ysgol
Dewi Wyn – Ffotograffydd
Manon Jaffeth – Sgwrs gofalwyr ifanc
Dawns i Bawb – Cyfres o chw wythnos o weithdai dawns i`r plant
Hoci a Rygbi – Chwaraeon Ysgolion y dalgylch
Cyngerdd Nadolig
Bore Coffi Abersoch – plant yn canu carolau Nadolig
Penwythnos Nadolig Abersoch – plant yn canu
Parti Nadolig yr Urdd yn yr ysgol
Trip Nadolig – Caffi Sion am frecwast hwyr, sgwrs gyda Sion Corn a wedyn i Neuadd Dwyfor
Ymweliad PC Rhiannon Wright
Cyngerdd yr Urdd yn yr ysgol
Ymweliad CA 2 i`r Ysgwrn
Sesiwn Darganfod Dawns – Neuadd Dwyfor
Eisteddfod yr Urdd – amrywiaeth o gystadlaethau yn cynnwys Celf a Chrefft
Lori Ni – plant yn cael dewis a benthyg llyfrau
Ymwleiad CA1 i Eglwys Llanengan
Gala Nofio
Gwenan Gibbard – cyfres o weithdai cerddorol
Chwaraeon Ysgolion dalgylch
Ymweliad i Gelligyffwrdd
Mabolgampau`r ysgol

**Adolygu Polisia'r Ysgol**
Mae trefn a thaflen amser pwrpasol i adolygu y polisiau'r Ysgol. Mae rhai sydd yn statudol i'w hadolygu a'u diweddaru yn flynyddol a bydd y corff yn gwneud hyn yn ystod eu cyfarfod cyntaf ar ddechrau bob blwyddyn addysgol.
Polisiau yw'r rhain sydd yn ymwneud a materion megis Amddiffyn Plant, Anghenion Dysgu Ychwanegol a pholisi bwlio. Byddwn yn edrych ar bolisiau penodol yn amlach pe cyfyd problem rhwng cyfarfodydd llywodraethol.

**Toiledau'r Ysgol**
Mae yna doiledau ar gyfer y genethod a'r bechgyn ar wahan.
Mae toiledau staff ac anabl lle gall plant ei ddefnyddio fel bo angen.
Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

**Cyrsiau**

Bu'r staff ar nifer o gyrsiau yn ystod y flwyddyn yn unol a Chynllun Datblygu'r Ysgol a blaenoriaethau'r Awdurdod a'r Cynulliad – ceir restr o'r holl gyrsiau yn yr ysgol. Bu'r Llywodraethwyr ar amryw o gyrsiau a ddarparwyd ar eu cyfer gan yr Awdurdod.

**Prosesau Gwerthuso`r ysgol**
Bydd y corff llywodraethol yn trafod datblygiadau'r Cynllun Datblygu Ysgol , adolygu polisiau a adolygu strategaethau gwerthuso`r ysgol yn ystod bob cyfarfod yn dymhorol.

**Gwasanaethau Ychwanegol**
Gwersi Offerynnol – Caiff nifer o'r disgyblion wersi piano, drymiau a gitar, mae`r gwersi yma bellach am ddim i ddisgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim.

**Diogelwch**
Dilynir y canllawiau priodol ynglyn â diogelwch y disgyblion a'r staff trwy gymryd pob cam posibl i hybu Iechyd a Diogelwch yn y safle. Cafwyd gyfarfod gyda swyddog Iechyd a Diogelwch y Sir i greu asesiad Risg ar gyfer adeiladu ar dir yr Ysgol.

**Gwybodaeth i Rieni**

Dyddiadau'r Tymhorau 2024/2025

Gweler galedr Gwynedd ynghlwm.

**Sesiynau'r Ysgol:**

| 9:00-10.45 | 10.45-11.00 | 11.00-12.15 | 12.15-1.15 | 1.00-2.15 | 2.15-2.30 | 2.30-3.30 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwers | Amser chwarae | Gwers | Amser Cinio | Gwers | Amser Chwarae | Gwers |

Bydd plant meithrin yn mynd adref am 11.00 a.m.

**3. Blaenoriaethau'r Ysgol 2023/2024**

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | Datblygu sgiliau rhifedd gweithdrefnol |
| Blaenoriaeth 2 | Datblygu medrau darllen |
| Blaenoriaeth 3 | Datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth o gdberthnasedd iach disgyblion drwy`r ysgol |

| 2024/2025 | 2025/2026 | 2026/2027 |
|---|---|---|
| | | |
| • Cryfhau ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso sgiliau rhifedd i bwrpas yn drawsgwricwlwaidd<br>• Cryfhau`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy`r ysgol<br>• Datblygu medrau ystod lawn o fedrau disgyblion drwy`r ysgol | • Arweinyddiaeth – arweinyddion drwy`r ysgol i gyd-weithio ar systemau gwerthuso<br>• Datblygu rôl llywodraethwyr wrth werthuso drwy`r ysgol | • Datblygu`r Gymraeg , yn enwedig sgiliau llafar plant<br>• |

**CRYNODEB O GANLLAWIAU YNGHYLCH Y DDYLETSWYDD I GYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHIENI**

**Crynodeb yn unig yw'r canllawiau hyn. Dylid cyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cymru. Dogfen ganllawiau rhif: 104/2013**

http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013-05-09/Parent_meeting_circular_welsh.pdf

- Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (adran 94 (13)) yn disodli'r gofyniad blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni.

- Daw'r canllawiau i rym ar 4 o Fai 2013.

- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu ysgol eu plentyn.

**Gofynion Statudol**

- **Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod gynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig:**

  - rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig neu

  - 30 o ddisgyblion cofrestredig pa un bynnag sydd leiaf. Mewn Ysgolion o dros 300 o ddisgyblion byddai'n haws i rieni fodloni'r gofyniad i gael 30 o lofnodion.

  - e.e., efallai bydd dau riant yn llofnodi'r ddeiseb ond dim ond un plentyn sydd ganddynt yn yr ysgol. Mewn achos o'r fath bydd dau lofnod yn cyfrif fel un "disgybl cofrestredig".

  - e.e., efallai y bydd un rhiant yn llofnodi'r ddeiseb ond bydd ganddo dri phlentyn yn yr ysgol. Golyga hyn y bydd llofnod y rhiant yn cyfrif fel tri "disgybl cofrestredig".

  - Disgwylir y bydd modd i rieni gael gwybodaeth gan swyddfa'r ysgol ynghylch faint o ddisgyblion cofrestredig sydd ar gofrestr ysgol.

- **Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol:**

  - Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.

  - Rhaid peidio ag ystyried cyfarfod fel ffordd arall o wneud cwyn.

  - Rhaid peidio ag ymdrin â materion personol, unigol sy'n ymwneud â phlentyn neu aelod o staff. Byddai materion o'r fath yn rhywbeth cyfrinachol nad ydynt yn addas i'w trafod yn agored.

  - Gellir trafod mater neu bryder un dosbarth yn unig - cyn belled â bod y nifer trothwy ar gyfer cyflwyno'r ddeiseb wedi ei fodloni - nid oes newid i'r trothwy.

  - Pe byddai panel o'r llywodraethwyr yn gwrthod cais i gynnal cyfarfod ar sail nad amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol, gall rhieni anghytuno a defnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

- **Ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol yn sgil deiseb gan rieni:**

  - Golyga blwyddyn ysgol o ddechrau tymor yr hydref ym Medi un flwyddyn i ddiwedd tymor yr haf yng Ngorffennaf y flwyddyn addysgol honno.

- **Rhaid sicrhau bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn gallu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod:**

  - Mae'r ddeddf yn darparu mai dim ond os oes digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i allu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod y gellir galw cyfarfod.

  - Nid yw penwythnosau, gwyliau banc/cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS yn cyfrif tua at y cyfnod 25 diwrnod.

- **Y broses o gyflwyno deiseb**

Er mwyn i gorff lywodraethu allu bod yn siŵr bod deiseb ddilys wedi'i chyflwyno, disgwylir i'r ddeiseb:

- gynnwys datganiad bod rhieni yn arfer eu hawl i wneud cais am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu;
- roi crynodeb byr o'r materion i'w trafod a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod;
- nodi pa rif yw'r cyfarfod hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno, oherwydd mai 3 chyfarfod yn unig y gellir eu cynnal mewn blwyddyn ysgol;
- nodi'n glir ar frig y ddeiseb grynodeb o'r materion i'w trafod gyda llofnodion y rhieni oddi tanynt.

- **Pan ddaw deiseb i law**

Rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod os:

- daw deiseb i law gan rieni
- yw'r corff llywodraethu yn fodlon bod y gofynion statudol wedi eu bodloni.
- Disgwylir i'r ddeiseb ddod i law'r clerc llywodraethu neu gadeirydd y corff llywodraethu ar gyfer ei hystyried gan y corff llywodraethu, Byddai'n dderbyniol hefyd cyflwyno deiseb at y corff llywodraethu "drwy law" y pennaeth.

- **Sut dylai corff llywodraethu fynd ati i roi rhybudd am gyfarfod?**

- Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig sy'n cynnwys dyddiad, lle ac amser y cyfarfod ynghyd a'r materion sydd i'w trafod, ar bob hysbysfwrdd ysgol ac mewn lleoedd amlwg ac wrth ymyl pob allanfa o dir yr ysgol. Yn ogystal â hynny dylid anfon llythyr at rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig. Gellir ei anfon drwy law'r disgybl neu'n electronig.

- Dylai'r cyfarfod fod yn agored i'r pennaeth ac i unigolion eraill mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd.

- Ni cheir codi tâl am ddarparu gwybodaeth i unrhyw un mewn perthynas â'r cyfarfod.

- Dylid cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod ar ôl i'r ddeiseb ddod i law.

- Dylid rhoi rhybudd o 10 diwrnod ysgol llawn.

- **Cynnal Cyfarfod**

Awgrymir y dylai ysgol nodi gweithdrefn sy'n rhoi sylw i'r materion isod :

- pwy fydd yn cadeirio'r cyfarfod
- y cworwm gofynnol ar gyfer y rhieni a'r llywodraethwyr (disgwylir i'r cworwm ar gyfer rhieni fod yn gyfran o nifer y rhieni sydd wedi llofnodi'r ddeiseb)
- pwy fydd yn cymryd cofnodion (yn ddelfrydol y clerc),
- beth fydd y drefn i rieni gael siarad yn y cyfarfod,
- yr wybodaeth y bydd angen ei hanfon at bob llywodraethwr cyn y cyfarfod,
- y camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod.

- **Rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o da adran 94 o'r ddeddf .**

Disgwylir i gorff llywodraethu roi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod.

- Disgwylir i'r ysgol anfon llythyr at y rhieni

- Disgwylir i gyrff llywodraethu barhau i gyfathrebu ac ymwneud â rhieni gydol y flwyddyn ysgol

- Disgwylir i ysgol roi gwybod am yr hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod yn y Llawlyfr Ysgol ac yn yr Adroddiad Blynyddol i rieni.

## GWYLIAU YSGOL
### 2024-2025

**TYMOR:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2024 | 2 Medi 2024 | - | 20 Rhagfyr 2024 |
| Gwanwyn 2025 | 6 Ionawr 2025 | - | 11 Ebrill 2025 |
| Haf 2025 | 28 Ebrill 2025 | - | 21 Gorffennaf 2025 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 3 Medi, 2024.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 28 Hydref - 1 Tachwedd 2024 | (Hanner-Tymor) |
| 23 Rhagfyr 2024 - 3 Ionawr 2025 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 24 - 28 Chwefror 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 14 - 25 Ebrill 2025 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 5 Mai 2025 | (Calan Mai) |
| 26 – 30 Mai 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 22 Gorffennaf - 29 Awst 2025 | (Gwyliau'r Haf) |

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 1 Medi, 2025 i athrawon, a dydd Mawrth, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

| | |
|---|---|
| MEDI 2024 | 21 |
| HYDREF 2024 | 19 |
| TACHWEDD 2024 | 20 |
| RHAGFYR 2024 | 15 |
| IONAWR 2025 | 20 |
| CHWEFROR 2025 | 15 |
| MAWRTH 2025 | 21 |
| EBRILL 2025 | 12 |
| MAI 2025 | 16 |
| MEHEFIN 2025 | 21 |
| GORFFENNAF 2025 | 15 |
| | ---- |
| | 195 |
| | ---- |

2 Medi 2024 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Datganiad Cyfrifon ar gyfer Gronfa Ysgol Sarn Bach
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr, 2023

| | | |
|---|---|---|
| **Balans D/Y** | | **15320.46** |
| Talwyd i mewn | (+) | 8134.99 |
| Talwyd allan | (-) | 9046.01 |
| Chqs 2022 wedi eu talu yn 2023 | (-) | 15.00 |
| Chqs rhif .......... (heb eu rhoi i mewn) | (+) | |
| **Balans ar 31.12.2023** | | **14394.44** |

| **Derbyniadau** | | **Taliadau** | |
|---|---|---|---|
| Balans D/Y | 15320.46 | Talwyd allan | 9046.01 |
| Talwyd i Mewn | 8134.99 | Chq o 2022 talu yn 2023 | 15.00 |
| Chqs heb fynd trwadd | | Balans ar 31/12/2023 | 14394.44 |
| | 23455.45 | | 23455.45 |

Tystiwyd

Trysorydd y Gronfa .......................... Cadeirydd y Llywodraethwyr ..............................

Yr wyf/yr ydym wedi archwilio'r cofnodion cyfrifo sy'n berthnasol i Gronfa Ysgol Sarn Bach ac yn fy marn/ein barn mae'r cyfrifon uchod nyn gywir ac yn gofnod cyflawn o'r trafodion yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr, 2023 a balans yr arian mewn llaw ar y dyddiad hyn.

DYDDIAD ........................................ ARCHWILYDD ..................................................

## 2103 - Sarn Bach

| CYFRIFON TERFYNOL 2023/2024 | Cyllideb 2023/2024 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2023/2024 | Cyfanswm Gwariant 2023/2024 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | | |
| Cyflogau- | | | | | |
| Athrawon | £140,191 | £3,429 | £143,620 | £143,563 | £57 |
| Athrawon Llanw | £11,431 | £0 | £11,431 | £8,396 | £3,036 |
| Staff Ategol - | | | | | |
| Amser Cinio | £6,969 | -£1 | £6,968 | £4,587 | £2,381 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £64,908 | £1,459 | £66,367 | £67,444 | -£1,077 |
| Cymorth Gweinyddol | £1,123 | £0 | £1,123 | £1,181 | -£58 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyfredinol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £1,428 | £0 | £1,428 | £1,241 | £187 |
| Gofalwr (Goramser) | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **ADEILADAU** | | | | | |
| Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol | £1,100 | £0 | £1,100 | £2,546 | -£1,446 |
| Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo | £5,036 | £0 | £5,036 | £5,036 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £1,783 | £0 | £1,783 | £1,783 | £0 |
| Costau Ynni - | | | | | |
| Olew | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Trydan | £7,000 | £0 | £7,000 | £8,396 | -£1,396 |
| Nwy | £5,000 | £0 | £5,000 | £1,966 | £3,034 |
| Dwr | £1,000 | £0 | £1,000 | £566 | £434 |
| Cynllun Rheoli Carbon | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Glanhau | £13,100 | £0 | £13,100 | £13,270 | -£170 |
| Contract Gofalu | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £1,021 | £0 | £1,021 | £1,020 | £1 |
| Defnyddiau Glanhau | £150 | £0 | £150 | £771 | -£621 |
| Offer Ymladd Tan | £150 | £0 | £150 | £103 | £47 |
| Trethi | £2,540 | £0 | £2,540 | £2,540 | £0 |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | | | |
| Lwfans y Pen | £8,000 | £0 | £8,000 | £16,481 | -£8,481 |
| Dodrefn | £160 | £0 | £160 | £0 | £160 |
| Post | £100 | £0 | £100 | £0 | £100 |
| Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd | £400 | £0 | £400 | £140 | £260 |
| CLG Swyddfa Ardal | £2,534 | £0 | £2,534 | £2,534 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £472 | £0 | £472 | £472 | £0 |
| CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm. | £157 | £0 | £157 | £157 | £0 |
| CLG Cyflogau | £408 | £0 | £408 | £408 | £0 |
| CLG Personel | £519 | £0 | £519 | £519 | £0 |
| CLG Arlwyaeth | £15,633 | £0 | £15,633 | £15,633 | £0 |
| CLG Llyfrgelloedd | £60 | £0 | £60 | £60 | £0 |
| CLG Archifau | £493 | £0 | £493 | £459 | £34 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £4,000 | £0 | £4,000 | £3,642 | £358 |
| Gwasanaeth Cerdd | £2,000 | £112 | £2,112 | £3,807 | -£1,695 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £1,069 | £0 | £1,069 | £1,069 | £0 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £2,235 | £0 | £2,235 | £2,235 | £0 |
| ARIAN WRTH GEFN | £0 | £32,722 | £32,722 | £0 | £32,722 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £302,169 | £37,722 | £339,891 | £312,023 | £27,868 |
| GOSODIADAU | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| RHODDION / INCWM ARALL | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| INCWM GWE | £0 | -£8,115 | -£8,115 | -£8,115 | £0 |
| DEFNYDD O FALANSAU | -£31,576 | £31,576 | £0 | £0 | £0 |
| GRANTIAU | -£20,522 | -£8,491 | -£29,013 | -£32,369 | £3,356 |
| LLÔG AR FALANSAU | £0 | £0 | £0 | -£2,039 | £2,039 |
| **CYFANSWM** | £250,071 | £52,692 | £302,763 | £269,500 | £33,263 |